Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

# Cylchlythyr 2025 NAS



# Rhagair gan Suzanne

Mae'n bleser gen i rannu cylchlythyr eleni gyda chi, sy'n cynnwys newyddion, gwybodaeth, ac uchafbwyntiau o 2024, yn ogystal â chyfle i edrych ymlaen at 2025. Rwy'n gobeithio y bydd y cynnwys yn ddiddorol, yn llawn gwybodaeth ac yn ddefnyddiol i chi ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, ble bynnag yr ydych chi yng Nghymru a'r cyffuniau.

Mae eleni wedi bod yn arbennig o brysur i ni, gyda digwyddiadau nodedig fel cynnal stondin gyntaf NAS yng Ngŵyl y Gelli, croesawu panel o'n mabwysiadwyr Cymraeg eu hiaith i'r Eisteddfod Genedlaethol, a lansio ein gwefan newydd.

Yn ogystal, roedd 2024 yn flwyddyn gyffrous i bawb yn y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol (NAS) wrth i ni ddathlu ein deng mlwyddiant. Gan adlewyrchu ar y degawd diwethaf, rwy'n falch o'r cynnydd rydym wedi'i wneud wrth gefnogi ein cymuned fabwysiadu. Mae ein gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc, 'Connected', a ddatblygwyd gyda chymorth AUK Cymru, bellach yn cefnogi bron i 400 o blant a phobl ifanc mabwysiedig bob blwyddyn. Mae ein Fframwaith Taith Bywyd yn darparu cymorth hanfodol i fabwysiadwyr a gweithwyr proffesiynol, ac mae ein Ymrwymiad Cymorth Mabwysiadu yn sicrhau bod unrhyw un sy'n ymwneud â mabwysiadu yng Nghymru yn gwybod pwy y gellir cysylltu â nhw am gymorth.

Roedd yn fraint cael mynychu'r digwyddiadau gwych a gynhaliwyd ledled Cymru yn ystod Wythnos Genedlaethol Mabwysiadu, gan ddiweddu gyda'n digwyddiad cenedlaethol ar y 6ed o Dachwedd. Cynhaliwyd y digwyddiadau lleol hyn gan wasanaethau mabwysiadu rhanbarthol, ac roeddent yn cynnig cyfle unigryw i fabwysiadwyr a phlant a phobl ifanc mabwysiedig ddathlu gyda'i gilydd a chreu gwaith celf sy'n cynrychioli'r hyn y mae mabwysiadu yn ei olygu iddyn nhw. Roedd gweld pawb, gan gynnwys ein Gweinidogion, artistiaid ac Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol (VAA), yn dod at ei gilydd yng Nghaerdydd ar gyfer y digwyddiad cenedlaethol yn wirioneddol arbennig. Roedd yr arddangosfa o waith celf ac arddangosfeydd eraill yn uchafbwynt gwych, ac yn amlygu ymroddiad pawb sy'n ymwneud â'r gwasanaeth a'n cymuned fabwysiadu ehangach.

**Yn ogystal â'n dathliadau, cyflawnodd NAS nifer o ymrwymiadau pwysig yn 2024:**

- Fframwaith Nodweddion a Sgiliau newydd i gynorthwyo ymarferwyr i asesu mabwysiadwyr newydd
- Datblygu a lansio pecyn cymorth cynllunio cyswllt newydd a,
- Parhau i ddefnyddio fframwaith Sefydlogrwydd Cynnar Cymru, sydd eisoes yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i rai plant a theuluoedd yng Nghymru.

Wrth inni nesáu at 2025, rydym yn parhau i fod yn ymwybodol o'r heriau niferus a wynebir gan deuluoedd yng Nghymru. Peidiwch ag oedi cyn cysylltu â'ch rhanbarth lleol neu VAA os oes angen cymorth neu gyngor arnoch ynghylch mabwysiadu. Maen nhw yno i'ch helpu chi.

Yn olaf, hoffwn estyn diolch diffuant i'n holl fabwysiadwyr, gofalwyr maeth, a phawb sy'n rhan o NAS yng Nghymru. Mae eich ymrwymiad i ofalu am a chefnogi plant mewn cartrefi cariadus yn anhygoel. Rwyf hefyd am ddweud diolch i staff Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru a'n gwasanaethau partner. Rydym yn ymwybodol iawn o'ch ymroddiad.

**Gan ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd!**

Suzanne Griffiths

Cyfarwyddwr Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru



# Uchafbwyntiau 2024

# Uchafbwyntiau 2024

## Ionawr – Mawrth

- Daeth Dr Carolyn Sampeys yn Gyd-Gadeirydd Annibynnol Bwrdd Llywodraethu Cyfun NAS
- Dathlwyd wythnos Mabwysiadu a Maethu LHDTC+
- Rhannwyd straeon mabwysiadu gan y mabwysiadwr sengl, Abbey, a'r mabwysiadwyr Martin a Josh

## Ebrill - Mehefin


- Cynhaliwyd stondin gyntaf NAS yng Ngŵyl y Gelli 2024 a chrëwyd partneriaeth â Dr Aamir Khan ar gyfer ei ddigwyddiad
- Cynhaliwyd digwyddiad 'cymryd y cyfryngau cymdeithasol drosodd' gyda Hyrwyddwyr Mabwysiadu, gan rannu stori a chyngor James
- Rhannwyd cyngor ac esboniadau ynghylch mabwysiadu gan y Rheolwr Cofrestr Mabwysiadu, Hannah
- Rhannwyd ymchwil gan Adoption UK a ddatgelodd fod mabwysiadwyr a'r rhai mabwysiedig yng Nghymru yn gyffredinol yn fwy cadarnhaol ynghylch y gwasanaeth maent yn ei dderbyn o'i gymharu â gweddill y DU

## Gorffennaf - Medi

- Cynhaliwyd panel gyda'n mabwysiadwyr Cymraeg eu hiaith yn yr Eisteddfod Genedlaethol
- Dathlwyd Diwrnod Rhyngwladol Ieithoedd Arwyddion

## Hydref - Rhagfyr

- Dathlwyd Wythnos Genedlaethol Mabwysiadu 2024
- Dathlwyd pen-blwydd NAS yn 10 oed gyda digwyddiadau lleol ledled Cymru ac arddangosfa genedlaethol
- Diweddarwyd a lansiwyd gwefan newydd NAS
- Lansiwyd ein fframwaith Nodweddion a Sgiliau newydd




Visual by EleanorBeer.com 2024


NAS 10TH ANNIVERSARY
Faith Buckley POETRY
HEAR OUR VOICES
IT IS ESSENTIAL WE CONTINUE POST ADOPTION SUPPORT
THANK YOU FOR YOUR TREMENDOUS WORK!
ADOPTION HAS CHANGED SO MUCH IN 10 YEARS
Julie Morgan
THINK ABOUT ADOPTION
THE SERVICES ARE SO IMPORTANT
TELLING OUR STORY
SAFE
Jane Tremlett
ENJOY CELEBRATING WITH US!
"I WOULDN'T BE WHO I AM TODAY.."
WE'RE FINDING THE BEST ADOPTIVE FAMILIES
FOR OUR CHILDREN
WALES LEADING THE WAY
FROM 22 TO 5
WELSH GOV & NAS WORKING TOGETHER
JOINED UP REGIONS COLLABORATING
Thank you to our Adoptive families!
DAWN BOWDEN MS
PROFESSIONAL PANEL
REFLECTIONS OF THE LAST 10 YEARS
1988 YOU WERE TOLD TO WALK AWAY
NOW IT'S CHANGED SO MUCH
"OUR POST ADOPTION SUPPORT IS LIFE-LONG..."
EVOLUTION OF OUR APPROACH
Albert Suzanne Jason
3 TIER MODEL:- SUSTAINABILITY IS WHERE WE CAME IN
NAS HAS CREATED & ENABLED SERVICES TO THRIVE/SURVIVE
OUR RELATIONSHIPS CONTINUE TO MATURE!
GOOD PARTNERSHIP
ADOPTION UK
SHARED EXPERIENCE
LISTENING TO WHAT SERVICE USERS NEED
James Connect Voices
MY PARENTS - NEVER ANY SECRETS - NEVER GIVEN UP!
MY FOSTER PARENTS PLAYED A BIG PART IN LIFE..
WHEN I TOLD MUM & DAD ABOUT FINDING MY ADOPTIVE PARENTS - IT'S OPENING BOX OF EMOTIONS!
ANS ASTDEN
SEARCHING for my BIRTH MOTHER..
SO WHAT...
WE NEED MORE EDUCATION AWARENESS
EDUCATE EMPLOYEES ON ADOPTION
SERVICE LIKE THIS IS SO IMPORTANT
ADVOCATE for CHANGE
POETRY by Rhian Edwards
SINGLE PARENTS CAN BE ADOPTIVE PARENTS!
TELL THEIR STORIES!
Daf James
PUTTING AUTHENTIC ADOPTION JOURNEYS ON SCREEN
Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol
National Adoption Service
ORDINARY PEOPLE MAKE EXTRAORDINARY ADOPTERS
Visual by EleanorBeer'24



# Uchafbwyntiau o'ch gwasanaethau lleol ledled Cymru

# Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mabwysiadu
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Adoption
Mid & West Wales

Mae 2024 wedi bod yn flwyddyn brysur i ni yn Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru. Rydym wedi bod yn gweithio i foderneiddio arferion mabwysiadu o fewn y rhanbarth. Trwy gyfres o sioeau teithiol, rydym wedi ymgysylltu â thimau gofal plant awdurdodau lleol, Swyddogion Adolygu Annibynnol (IROs), timau maethu, a gofalwyr maeth – gan ganolbwyntio ar bynciau allweddol: cyswllt, newid enw a gwaith taith bywyd cyfoethocach.

## Diwrnodau gweithgaredd ar gyfer ein teuluoedd

Ym mis Chwefror, fe wnaethon ni ymgolli mewn sesiwn Ysgol y Goedwig. I ddathlu Wythnos Genedlaethol Mabwysiadu a'n pen-blwydd yn 10 oed, fe gynhalion ni ddigwyddiad Nadoligaidd yng Nghastell Aberteifi ym mis Hydref. Roedd y diwrnod yn llawn dop o weithgareddau ar thema Calan Gaeaf, celf a chrefft, a chyfleoedd i deuluoedd gysylltu â'i gilydd.

## Nodi ein carreg filltir o 10 mlynedd

Yma yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, buom yn cydweithio â'r artist 'Lloyd the Graffiti' i ymgysylltu â phobl iau i gynhyrchu gwaith celf cydweithredol, a gafodd ei arddangos yn yr Eglwys Norwyaidd yng Nghaerdydd yn ystod digwyddiad dathlu deng mlwyddiant y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ym mis Tachwedd.

## Grŵp Cymorth Cyfoedion Cwnsela Cofnodion Geni 2024

Mae'r fenter allweddol hon yn darparu man cefnogol ar gyfer mabwysiadwyr sy'n oedolion ac sy'n ceisio cael mynediad at eu cofnodion geni. Mae'r grŵp hwn yn cynnig cefnogaeth emosiynol ar gyfer y ddwy ochr, yn rhannu profiadau, yn archwilio ymholiadau/penblethau ac yn gofyn i'r rhai sy'n cael eu mabwysiadu am adborth i'n helpu i wella ein gwasanaethau ar gyfer oedolion mabwysiedig. Bydd y grŵp yn parhau i gyfarfod bob yn ail fis o hyn ymlaen.

## Model LEAPlets BUSS®

Mae'r model hwn yn helpu plant a gollodd allan ar brofiadau symud cynnar hanfodol i ddatblygu sgiliau echddygol craidd a rheolaeth o'r corff. Mae gweithdy grŵp 10 wythnos yn ei seithfed wythnos ar hyn o bryd, gyda mabwysiadwyr yn adrodd cynnydd amlwg yn natblygiad eu plant. Yn 2025, rydym yn bwriadu archwilio cyfleoedd ariannu i ymestyn y gwaith hwn, gan gynnwys y posibilrwydd o sicrhau cymhwyster Lefel 2, a'n galluogi i gynnig sesiynau un-i-un ar gyfer teuluoedd sydd mewn angen.

## Hyfforddiant arbenigol Sefydlogrwydd Cynnar Cymru (WEP)

Yn 2025, rydym yn bwriadu datblygu'r fenter hon, trwy benodi hyrwyddwr WEP i ddatblygu'r rhaglen.

Mae ein hymrwymiad i wella cymorth mabwysiadu ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gryf o hyd, ac edrychwn ymlaen at barhau i weithio ochr yn ochr â'n partneriaid a'n teuluoedd yn 2025.

## Dewch o hyd i ni ar:

- adoptionmwwales.org.uk/
- mabwysiaducgcymru.org.uk/
- facebook.com/adoptmwwales
- twitter.com/adoptmw_wales
- instagram.com/adoptmwwales

# Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru

Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru | North Wales Adoption Service

### Cynnal 7fed diwrnod hwyl i'r teulu blynyddol Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru

Croesawyd dros 90 o deuluoedd a 150 o blant i'n digwyddiad diwrnod hwyl i'r teulu blynyddol. Roedd llawer o weithgareddau i gwrdd ag ystod oedran pob plentyn. Eleni, croesawyd Mr Phormula, a fu'n bîtbocsio yn ddwyieithog gyda'r plant drwy'r dydd er mwyn creu ein 'rap mabwysiadu' ein hunain.

Dyma oedd gan un teulu i'w ddweud:

*"Mae'r diwrnod hwyl yn rhywbeth rydyn ni fel teulu yn dibynnu arno – mae ein plentyn yn edrych ymlaen ato bob blwyddyn ac wedi gwneud ffrindiau gyda phlant eraill. Mae'n edrych o amgylch yr ystafell amdanynt ac yna'n treulio'r diwrnod. Mae'n dweud fod y plant eraill yn union yr un fath ag o!*

*"Mae'r diwrnod hwn yn aruthrol o werthfawr ac yn rhoi cyfle i ni rieni siarad â theuluoedd eraill, ond yn bwysicach fyth, gall ein plant chwarae mewn lle diogel, a dwi ddim yn poeni sut y bydd eraill yn gweld ei ymddygiad."*

### Recriwtio

Rydym wrthi'n recriwtio ac yn asesu mabwysiadwyr addas sydd â diddordeb mewn cynnig profiadau teuluol cariadus a meithringar i blant sy'n aros i gael eu mabwysiadu. Mae ein haelodau staff profiadol yn parhau i gefnogi a chynnig arweiniad trwy gydol y daith fabwysiadu.

### Y Teulu cyntaf o Fabwysiadwyr Sefydlogrwydd Cynnar Cymru (WEP) - cymeradwywyd yn 2024

Cymeradwywyd ein teulu cyntaf fel gofalwyr WEP ac edrychwn ymlaen at leoli plentyn gyda nhw maes o law.

### Hyfforddiant

Mae'r hyfforddiant Cyn-cymeradwyo a'r Rhaglen Hyfforddiant Cymorth Ôl-fabwysiadu yn cael eu darparu'n rheolaidd ac yn parhau i gynnig amrywiaeth o gyrsiau wedi'u teilwra i anghenion teuluoedd mabwysiadol. Mae'r rhaglen yn ystyried natur brysur bod yn rhiant. Mae'n cynnig gweminarau byr sy'n cael eu recordio ac y gellir eu gwylio'n ôl (hyd at 7 diwrnod), gweithdai a modiwlau E-Ddysgu mewn person ond ar-lein/rhithwir.

Mae ein grwpiau cymorth ar gyfer darpar fabwysiadwyr a mabwysiadwyr cymeradwy a'n Cynllun Cyfeillion yn parhau i fod yn llwyddiannus ac mae ein teuluoedd yn eu hystyried fel cyfleoedd cymorth gwych.

### Grŵp Aros a Chwarae

Mae hyn yn parhau i fod yn llwyddiant gyda themâu penodol ar gyfer pob sesiwn a gweithgareddau wedi'u llywio gan Thera-play. Gall teuluoedd dderbyn cyngor, arweiniad a chymorth magu plant therapiwtig os oes angen.

### Ymgyrch Hysbysebu

Gyda chefnogaeth tîm canolog NAS, fe wnaethom sicrhau cyllid i dalu am ymgyrch hysbysebu cefn bws. Teithiodd pymtheg o fysiau am chwe wythnos rhwng Awst a Medi ar draws y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru.

### 2025

Y flwyddyn nesaf, ein nod yw cynyddu ein hamlygrwydd o fewn y gymuned, rhannu mwy o wybodaeth am weithgareddau ein gwasanaeth, cefnogi ein teuluoedd mabwysiadol, a recriwtio mwy o rieni ymroddedig ar gyfer y plant hynny sy'n aros i gael eu mabwysiadu.

### Dewch o hyd i ni ar:

- northwalesadoption.co.uk
- facebook.com/mabwysiadugogleddcymru
- twitter.com/nw_adoption

# Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru

South East Wales Adoption Service
Achieving More Together

## Haf 2024

Yr haf hwn, sefydlwyd grŵp Aros a Chwarae ar gyfer teuluoedd mabwysiadol sydd â phlant cyn oed ysgol. Mae'r gofod hwyliog a diogel hwn yn rhoi cyfleoedd i blant chwarae, dysgu a chymdeithasu tra bod eu rhieni'n cysylltu â theuluoedd eraill sy'n mabwysiadu. Mae Aros a Chwarae yn grymuso rhieni mabwysiadol i ddatblygu eu rhwydweithiau cymorth gyda phobl eraill sydd ar yr un daith â nhw. Mae'r sesiynau hefyd yn hybu chwarae a chwilfrydedd ymysg plant a phobl ifanc i feithrin eu sgiliau cymdeithasol.

Dyma beth oedd gan riant a hwylusydd i'w ddweud:

*"Mae hyn yn newydd i ni – mae'n gallu bod yn anodd mewn cylchoedd chwarae eraill pan fydd pobl yn ein holi am ein plentyn sydd newydd gael ei fabwysiadu… Mae'n anodd oherwydd dydyn ni ddim yn gwybod rhai pethau, ac yna mae hynny'n arwain at orfod meddwl faint ydyn ni eisiau ei rannu ag eraill – nid yw hynny'n digwydd yma – rydyn ni i gyd mewn sefyllfaoedd tebyg."*

*"Roedden ni [Staff] yn teimlo bod yna fwlch yn y gefnogaeth unwaith y mae mabwysiadu wedi'i gwblhau – mae llawer o gamu'n ôl yn ffurfiol. Rydym am i'r grŵp hwn helpu rhieni gyda'u hymholiadau a'u profiadau newydd, ond hefyd i adeiladu rhwydweithiau y tu hwnt i'r grŵp."*

Ymwelodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) â'r grŵp fel rhan o fenter ymgysylltu ar raddfa fach, ac adnabuwyd cryfderau'r grŵp gan gynnwys…

*"Grymuso rhieni i gael llais, dewis a rheolaeth. Mae'r grwpiau hyn wedi'u strwythuro'n organig ac yn cael eu harwain gan y cyfranogwyr, gan ganiatáu iddynt ddylanwadu a llywio datblygiad y gwasanaeth. Mae hyn yn cyd-fynd â phwyslais Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar lais a rheolaeth a chydgynhyrchu, gan sicrhau bod gwasanaethau cymorth yn cael eu cynllunio a'u darparu mewn partneriaeth â'r rhai sy'n eu defnyddio."*

## Grŵp Anghenion Synhwyraidd ac Ymlyniad

Eleni, bu i ni ddatblygu partneriaeth â gwasanaethau Therapi Galwedigaethol a Seicoleg y GIG i lansio ein grŵp cyntaf sy'n cefnogi rhieni mabwysiadol i ddeall anghenion synhwyraidd ac ymlyniad. Nod y rhaglen beilot hon yw datblygu ymyriadau wedi'u teilwra ar gyfer plant sydd wedi profi trawma ac sy'n wynebu heriau o ran prosesu synhwyraidd ac integreiddio.

Roedd y rhieni a gymerodd ran yn y grŵp yn credu ei fod yn addysgiadol ac ymarferol. Dywedasant eu bod wedi cael mewnwelediadau gwerthfawr a strategaethau newydd i gefnogi eu plant. Mae llwyddiant y peilot wedi paratoi'r ffordd ar gyfer cynigion y grŵp yn 2025.

## Carreg filltir a gyflawnwyd: Sefydlogrwydd Cynnar Cymru (WEP)

Eleni, cyflawnom ein lleoliad WEP cyntaf, gan nodi dechrau addawol. Gyda mwy o asesiadau WEP ar y gweill ar hyn o bryd, rydym yn rhagweld canlyniadau cadarnhaol pellach yn y dyfodol.

## Dathlu degawd o fabwysiadu

Eleni, gwnaethom ddathlu pen-blwydd NAS yn 10 oed gyda digwyddiad rhanbarthol a gynhaliwyd ym Mlaenau Gwent. Roedd y digwyddiad yn ddathliad bendigedig o fabwysiadu, rhannu straeon a gwybodaeth gyda gweithwyr proffesiynol a sesiwn o weithgareddau hwyliog gyda phlant a theuluoedd. Roedd hefyd yn ffordd o gydnabod degawd o'n gwasanaeth fel darparwr rhanbarthol.

**Dewch o hyd i ni ar:**

southeastwalesadoption.co.uk

facebook.com/SEWASAdoption

instagram.com/sewasadoption

# Mabwysiadu yn y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd

Vale, Valleys and Cardiff Adoption | Mabwysiadu yn y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd

### Cryfhau ein cefnogaeth i deuluoedd mabwysiadol

Mae 2024 wedi bod yn flwyddyn brysur arall i ni. Rydym wedi parhau i groesawu teuluoedd newydd sy'n awyddus i fabwysiadu ac wedi cael ein plesio gan eu hymrwymiad a'u hymroddiad – mae'n ein rhyfeddu bob tro. Er mwyn cefnogi'r teuluoedd hyn yn well, rydym wedi canolbwyntio ar wella ein rhaglenni hyfforddi.

### Hyfforddiant a chefnogaeth

Partneriaeth gyda Bae'r Gorllewin: Rydym wedi parhau â'n partneriaeth lwyddiannus i ddarparu hyfforddiant Paratoi ac Ôl-Gymeradwyaeth cynhwysfawr.

Gwaith Taith Bywyd: Yn seiliedig ar adborth gwerthfawr gan deuluoedd, rydym wedi ehangu ein hyfforddiant i gynnwys sesiynau ychwanegol ar waith taith bywyd. Mae ein gweithdai ddwywaith y mis, dan arweiniad cydlynwyr profiadol, wedi cael derbyniad da ac maent yn grymuso rhieni i gynnal sgyrsiau ystyrlon gyda'u plant.

Hybiau Teuluol: Mae ein hybiau teulu misol yn parhau i ffynnu ac yn darparu lle i rieni a phlant gysylltu a chefnogi ei gilydd. Roedd ein diwrnod haf o hwyl i'r teulu yn llwyddiant ysgubol, gyda dros **80 o deuluoedd** yn mwynhau diwrnod o hwyl a gemau.

Byddwn yn adeiladu ar y meysydd gwaith hyn yn 2025.

### Dathlu cerrig milltir ac edrych tua'r dyfodol

I ddathlu 10 mlynedd ers sefydlu'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, cynhaliom ddigwyddiad arbennig yn cynnwys artistiaid gair llafar sydd hefyd yn rhieni mabwysiadol. Ysbrydolodd y digwyddiad y cyfranogwyr i fyfyrio ar eu teithiau mabwysiadu eu hunain a mynegi eu hunain yn greadigol.

Rydym yn edrych ymlaen at ddathlu ein pen-blwydd yn 10 oed yn 2025.

### Dewch o hyd i ni ar:

- adopt4vvc.org
- instagram.com/vvcadoption
- instagram.com/mabwysiadufcc
- facebook.com/vvcadoption
- facebook.com/mabwysiadufcc

# Gwasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin

GWASANAETH MABWYSIADU Bae'r Gorllewin Western Bay ADOPTION SERVICE

### Uchafbwyntiau 2024

Roedd Gorffennaf yn fis prysur llawn digwyddiadau mawr. Dychwelodd Sioe Awyr Cymru i Fae Abertawe, ac roedd ein hawyrennau sbwng arferol yn boblogaidd iawn gyda theuluoedd. Buom hefyd yn cymryd rhan yn Llwybr Celf Castles in the Sky Ambiwlans Awyr Cymru, gan drawsnewid un o'r cestyll yn atyniad hudolus. Roedd ein hymweliadau tîm, barbeciw clwb ieuenctid a sesiwn babanod a phlant bach yn y castell yn llwyddiannus iawn. Roeddem wrth ein boddau pan gafodd ein castell ei ddewis fel yr un mwyaf poblogaidd.

Fe wnaethom barhau i ymgysylltu'n weithredol â'r gymuned gyda digwyddiadau fel Ras Rafftiau'r Mwmbwls, Sioe Gŵyr, Gŵyl Fwyd Margam, a Digwyddiad i'r Teulu CNPT.

Mae ein teuluoedd mabwysiadol wedi gallu mwynhau digwyddiadau cymdeithasol dros Galan Gaeaf a'r Nadolig, ac mae cylch chwarae ein mabwysiadwyr yn parhau i fod yn boblogaidd i deuluoedd sy'n cwrdd bob pythefnos.

### Lledaenu'r gair

Yn ogystal â'r gwaith allgymorth a digwyddiadau, gwnaethom ymdrech i sicrhau bod elfennau eraill yn gweithio'n dda. Mae hyn yn cynnwys dosbarthu llenyddiaeth yn rheolaidd i safleoedd allweddol fel meddygfeydd teulu ac ysbytai - a hysbysebion awyr agored fel baneri ac arwyddion mewn mannau allweddol o ran ymwelwyr a thraffig. Rydym hefyd wedi bod yn ymdrechu i ymgysylltu â chyflogwyr lleol nid yn unig i hysbysebu mabwysiadu ond i sicrhau eu bod yn 'Gyfeillgar tuag at Fabwysiadu' ac yn gefnogol i'w gweithwyr wrth iddynt fynd drwy'r broses.

Gan symud i'r chwarter nesaf, byddwn yn anelu at ddarparu mwy o amrywiaeth ac ailedrych ar ymgyrchoedd mwy addysgol yn ymwneud â chymorth mabwysiadu a'r materion y mae ein plant yn eu hwynebu.

### 2025

Bydd ein hyb Taith Bywyd a chyswllt yn cael ei lansio ym mis Ionawr 2025. Bydd teuluoedd mabwysiadol yn gallu bwcio slot i drafod unrhyw broblemau o ran cefnogi stori taith bywyd eu plentyn neu gefnogi trefniadau cyswllt ôl-fabwysiadu.

### Dewch o hyd i ni ar:

- westernbayadoption.org/
- facebook.com/westernbayadoption
- twitter.com/bayadoption
- instagram.com/western_bay_adoption

# Barnardo's Cymru

Newid Plentyndod. Newid Bywydau.
Changing childhoods. Changing lives.

### Ymgysylltu â theuluoedd

Eleni, mae ein tîm wedi mwynhau treulio amser yn cysylltu â theuluoedd – yn enwedig y cyfle i weithio gyda nhw i greu gwaith celf ar gyfer dathliadau 10 mlwyddiant NAS.

### Blaenoriaethu anghenion plant

Rydym wedi gweld cynnydd yn natblygiad cynlluniau pontio creadigol sy'n blaenoriaethu anghenion pob plentyn.

### Gofal wedi'i lywio gan drawma

Rydym yn parhau i ddatblygu a darparu hyfforddiant wedi'i lywio gan drawma ledled ein gwasanaeth ac rydym yn gweithio gyda'n tîm ehangach yn Barnardo's i wella ein cynigion.

### Lleoliadau llwyddiannus a recriwtio

Rydym wrth ein bodd ein bod wedi dod o hyd i gysylltiadau a phariadau ardderchog ar gyfer rhai o'n teuluoedd sydd wedi bod yn aros. Mae ein hymdrechion recriwtio â ffocws wedi denu darpar fabwysiadwyr sy'n addas iawn i gefnogi plant ag anghenion a hanes cymhleth. Mae wedi arwain at rai darpar fabwysiadwyr rhagorol yn dod drwy'r asesiad.

### Gwasanaethau newydd yn 2024

Dechreuon ni redeg ein rhaglen hyfforddi magu plant therapiwtig ddwywaith y mis ar gyfer mabwysiadwyr. Mae'r hyfforddiant hwn yn galluogi mabwysiadwyr i ymuno ar unrhyw adeg o'r flwyddyn a chwblhau'r rhaglen gylchol.

Rydym hefyd wedi cael nifer fawr o geisiadau ar gyfer ein tocynnau pantomeim Nadolig ac yn edrych ymlaen at weld teuluoedd mewn theatrau ledled Cymru.

### Cynlluniau ar gyfer 2025

Rydym yn gweithio'n galed i ddatblygu ein cymuned fabwysiadu trwy ailgysylltu â mabwysiadwyr blaenorol. Mae'r cymorth cymunedol hwn yn darparu arweiniad a chyngor uniongyrchol rhagorol i'n darpar fabwysiadwyr o deuluoedd profiadol, ochr yn ochr â chymorth amhrisiadwy gan gyfoedion.

Ac mae mwy i ddod.

### Dewch o hyd i ni ar:

barnardos.org.uk/wales

facebook.com/barnardoscymrufosteradopt/

# Gwasanaeth Mabwysiadu Dewi Sant

Gwasanaeth Mabwysiadu Dewi Sant | St David's Adoption Service

Wrth i ni fyfyrio ar 2024, rydym yn dathlu ein teuluoedd, ein tîm, a'n rôl wrth drawsnewid bywydau. Fel Asiantaeth Mabwysiadu Gwirfoddol (VAA), rydym yn gwella cyfleoedd bywyd plant 'blaenoriaeth' sy'n aml yn aros hiraf am deulu - brodyr a chwiorydd a allai fel arall fod wedi eu gwahanu, plant hŷn, a'r rhai sy'n profi ansicrwydd meddygol neu enetig.

Yn Dewi Sant, rydym yn gwybod nad yw mabwysiadu yn dod i ben pan fydd plentyn yn cael ei leoli. Mae'n daith gydol oes. Trwy ddefnyddio ein statws elusennol i godi arian, rydym yn darparu arweiniad, gofal ac adnoddau bob cam o'r ffordd. Eleni, rydym wedi canolbwyntio ar y canlynol:

### Arweinlyfrau, Cylchlythyrau, ac Ymgysylltiad Cymunedol

Fe wnaethom ymgysylltu â'n cymuned i ddatblygu sawl canllaw a chylchlythyr. Maent yn ganolog i rannu gwybodaeth, ysbrydoli gweithredu, a meithrin cysylltiadau cryfach gyda'n teuluoedd a'n cefnogwyr. Mae ein canllawiau ar fabwysiadu LHDTC+, mabwysiadu sengl, a mabwysiadu am yr eildro wedi bod yn werthfawr i gymunedau sy'n ystyried mabwysiadu.

### Dathlu Ein Tîm

Rydym yn ffarwelio â Wendy Keidan fel Prif Swyddog Gweithredol, mae ei harweinyddiaeth a'i hymroddiad wedi bod yn allweddol wrth lunio'r elusen. Roedd yn bleser gennym gyhoeddi mai Jason Baker yw'r Prif Swyddog Gweithredol newydd, ochr yn ochr â dyrchafiad Martina McCrossan yn Ddirprwy Gyfarwyddwr. Gyda'n gilydd, rydym yn cyflwyno pennod newydd ar gyfer ein hasiantaeth, un sy'n cynnwys sefydlu tîm Cam 1 pwrpasol. Mae'r tîm hwn wedi ymrwymo i arwain teuluoedd trwy gamau cynnar eu taith fabwysiadu, gan sicrhau eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi.

### Partneriaeth ag AUK

Mae ein cydweithrediad parhaus ag Adoption UK (AUK) yn parhau i fod yn gonglfaen i'n gwaith. Gyda'n gilydd, rydym yn mynd i'r afael ag anghenion cymhleth, ac yn aml rhai emosiynol plant a theuluoedd yn y broses fabwysiadu. Un maes sy'n arbennig o bwysig yw'r Gwasanaeth Cyfryngol a Mynediad at Gofnodion Geni, sy'n ceisio gwella'r cymorth proffesiynol a'r gwasanaethau sydd ar gael i'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan arferion mabwysiadu hanesyddol.

### Rhywbeth i'w Ddathlu - Lost Boys and Fairies

Mae llwyddiant diweddar Lost Boys and Fairies ar y BBC yn ein hatgoffa o bŵer trawsnewidiol adrodd straeon. Mae gwaith Daf James nid yn unig yn diddanu ond hefyd yn cynyddu ymwybyddiaeth o'r profiadau a'r emosiynau sy'n gysylltiedig â mabwysiadu, gan annog empathi a dealltwriaeth yn y gymdeithas ehangach. Mabwysiadodd Daf a'i bartner eu plant trwy Dewi Sant.

### Edrych Ymlaen

Wrth i ni symud ymlaen, rydyn ni'n dathlu'r cynnydd rydyn ni wedi'i wneud a'r bywydau rydyn ni wedi'u cyffwrdd. Nawr, rydym yn paratoi ar gyfer 2025. Mae cynlluniau ar gyfer 'Diwrnod Mawr Mabwysiadu', 'Diwrnod y Llyfr' a 'Pride Cymru' sef rhai o'r gweithgareddau a'r digwyddiadau cymunedol y byddwn yn cymryd rhan ynddynt y flwyddyn nesaf. Gyda'ch cefnogaeth chi, byddwn yn parhau i arloesi, eirioli a chefnogi'r plant a'r teuluoedd sydd ein hangen fwyaf.

---

### Dewch o hyd i ni ar:

- www.stdavidsadoptionservice.org
- twitter.com/adoptionwales
- facebook.com/stdavidschildrensociety
- instagram.com/stdavidsadoptionservice

# AFKA Cymru

## Fframwaith Ansawdd a Sgiliau Mabwysiadu

Drwy gydol 2024, mae AFKA Cymru wedi cefnogi NAS i greu'r Fframwaith Ansawdd a Sgiliau Mabwysiadu. Mae'r fframwaith hwn yn arf cyfeirio trosfwaol ar gyfer ymarferwyr, gan sefydlu set glir o rinweddau a sgiliau sy'n hanfodol ar gyfer bod yn rhiant mabwysiadol. Roeddem wrth ein bodd yn croesawu dros 80 o bobl i'n digwyddiad lansio ar-lein ym mis Tachwedd ac rydym yn edrych ymlaen at gyflwyno hyfforddiant yn y flwyddyn newydd, a fydd yn canolbwyntio ar sut i ddefnyddio'r fframwaith hwn yn ymarferol.

## Canllawiau Canfod Teulu

Mae AFKA Cymru hefyd wedi bod yn gweithio ochr yn ochr â NAS i adolygu'r ffurflenni CAR/B presennol, sy'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd gan Coram BAAF. Ymgynghorwyd â'r sector i sicrhau bod y ffurflenni diwygiedig yn addas i'w defnyddio yng Nghymru. Diolch hefyd i bawb a fu'n ymwneud â dechrau'r gwaith o adolygu a diweddaru Canllawiau Arfer Da Canfod Teulu NAS, mae eich cyfraniad yn hollbwysig. Edrychwn ymlaen at rannu'r gwaith hwn gyda chi i gyd y flwyddyn nesaf.

## Digwyddiadau a Gweithdai

Yn ystod 2024, fe wnaethom hwyluso gweithdai a digwyddiadau hyfforddi ar gyfer mabwysiadwyr ac ymarferwyr, ac mae llawer mwy o feysydd i'w harchwilio dros y flwyddyn sydd i ddod. Gobeithiwn eich gweld yn ein digwyddiadau hyfforddi a chynadleddau.

Roedd yn hyfryd gweld cymaint o'n cydweithwyr ledled Cymru yn nigwyddiad dathlu pen-blwydd NAS yn 10 oed ac edrychwn ymlaen at ymgynghori a gweithio gyda chi i gyd yn 2025.

**Dewch o hyd i ni ar:**

afkacymru.org.uk

twitter.com/AFKACymru

# Adoption UK Cymru

### Ffarwelio a chroesawu arweinyddiaeth newydd

Fe wnaethom ffarwelio'n â'n cyfarwyddwr, Ann Bell, sy'n cychwyn ar ymddeoliad haeddiannol ar ôl 16 mlynedd yn y swydd. Mae'r cyfarwyddwyr sydd newydd ei phenodi, Bek Burns, yn ymuno â ni gyda phrofiad helaeth o reoli elusennau, yn enwedig gwasanaethau plant a thrawma.

### Cefnogi teuluoedd

Cwblhawyd ein rhaglen 1KD, gan ymgysylltu â theuluoedd yn ystod eu 1000 o ddiwrnodau cyntaf. Derbyniodd teuluoedd o bob rhan o Gymru gymorth drwy'r rhaglen hon a gwnaethant gysylltiadau â theuluoedd eraill sy'n mabwysiadu.

### Chwalu rhwystrau mewn addysg

Lansiwyd ein hymgyrch Chwalu'r Rhwystrau i ddileu'r rhwystrau i ddysgu ar gyfer plant mabwysiedig a phlant sy'n berthnasau. Mae'r rhan hon o'r ymgyrch yn canolbwyntio ar hyfforddi athrawon. Dysgwch fwy yma: https://www.adoptionuk.org/listing/category/breaking-the-barriers

Fe wnaethom hefyd lansio ein hyfforddiant am ddim, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, ar gyfer staff addysgol, ar sut i gefnogi dysgwyr sydd wedi'u mabwysiadu a hynny yn yr ystafell ddosbarth. Gallwch archebu lle ar gwrs yma: https://www.eventbrite.com/cc/challenging-behaviour-in-care-experienced-learners-3790163

### Gwasanaeth cysylltiedig: creu cysylltiadau ac adeiladu sgiliau

Cefnogodd ein gwasanaeth 'Connected' dros 350 o blant a phobl ifanc mewn grwpiau ledled Cymru. Roedd hyn yn cynnwys profiadau therapi anifeiliaid, canŵio, a theithiau y tu ôl i'r llen o amgylch stiwdios y BBC. Roedd ein gwaith Connected Voices yn cynnwys pobl ifanc yn cael eu hyfforddi i ddatblygu sgiliau cyfweld – roedden nhw'n rhan annatod o'n gwaith recriwtio a dethol ein cyfarwyddwr newydd.

Cafwyd araith ddiffuant gan un o'r bobl ifanc Connected Voices a'n hymddiriedolwr, Ans, yn nigwyddiad pen-blwydd NAS yn 10 oed, ac roedd pawb yn eu dagrau. Dagrau hapus, wrth gwrs.

### Gwasanaeth Parent Pathways

Gweithiodd ein gwasanaeth Parent Pathways gyda dros 250 o deuluoedd, gan ddarparu cymorth cyfoedion ac ymgynghoriadau clinigol i rieni mabwysiadol.

### 2025

**Y Sgwrs Fawr ar Fabwysiadu 2025:** Lles emosiynol trwy lygaid Mabwysiadu. Cynhelir y digwyddiad ar-lein rhad ac am ddim hwn ar 17 Ionawr 2025 o 10am-1pm ac mae ar gyfer pobl mabwysiedig, rhieni mabwysiadol, gweithwyr cymdeithasol, cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, uwch reolwyr, cynllunwyr strategol ac ymarferwyr yn y gymuned fabwysiadu. Mae pedwar gweithdy yn cael eu trefnu ar gyfer y digwyddiad: Lles emosiynol trwy lygaid oedolion mabwysiedig, plant a phobl ifanc mabwysiedig, rhieni mabwysiadol, a rhieni geni.

Bydd y gweithdai yn archwilio canlyniadau arolwg diweddaraf o adroddiad baromedr Adoption UK ynghyd ag ymchwil ac arfer gorau. I archebu lle i ymuno â ni, ewch i wefan Lleisiau Mabwysiadu.

Mae arolwg baromedr 2025 ar gael i'w gwblhau nawr: https://www.adoptionuk.org/the-adoption-barometer .

Dyma'r arolwg cenedlaethol blynyddol mwyaf o brofiadau teuluoedd mabwysiedig. Mae arolwg eleni bellach yn caniatáu i bobl ifanc 16-17 oed ei gwblhau.

### Dewch o hyd i ni ar:

adoptionuk.org/wales

twitter.com/aukcymru

facebook.com/aukcymru

# Cofrestr Fabwysiadu Cymru (ARW)

Cofrestr Fabwysiadu**Cymru**
Adoption Register**Wales**

## Cydweithio

Mae ein tîm yn parhau i weithio'n agos gydag ymarferwyr a rheolwyr o bob rhan o Gymru i sicrhau bod data'r Gofrestr yn gywir ac yn gyfredol. Mae hyfforddiant gloywi wedi'i gynnig i staff ar ddefnyddio'r Cofrestr/Link Maker ym mis Mai, Mehefin, Medi a Rhagfyr. Caiff dyddiadau pellach eu cynnig y flwyddyn nesaf.

## Blwyddyn o ddigwyddiadau

Cynhaliom Ddiwrnod Gweithgaredd Mabwysiadu a gomisiynwyd trwy Coram BAAF ar 29 Mehefin yng Nghaerdydd. Cafodd 27 o blant sy'n aros, o bob rhan o Gymru, sylw yn y digwyddiad, gyda 23 o'r plant yn bresennol ar y diwrnod. Roedd llawer o'r plant a fynychodd yn rhan o grŵp o frodyr a chwiorydd a/neu ag anghenion cymhleth ychwanegol. Y thema oedd 'Pan Fydda i'n Hŷn' ac roedd yn ddiwrnod llawn hwyl. Cafwyd cyfanswm o 15 datganiad o ddiddordeb gyda 3 cyswllt llwyddiannus.

Dyma ni'n cynnal dau ddigwyddiad proffilio ar-lein eleni, un ym mis Mawrth ac un ym mis Hydref. Cafodd cyfanswm o 35 o blant sy'n aros o bob rhan o Gymru sylw yn y digwyddiadau. Mae gan lawer ohonynt anghenion cymhleth ychwanegol ac maent yn aros i ddod o hyd i gartref. Mynegwyd 11 datganiad o ddiddordeb yn dilyn y digwyddiadau, er nad arweiniodd y rhain at unrhyw baru llwyddiannus. Mae cynllunio bellach ar y gweill ar gyfer digwyddiad canfod teuluoedd nesaf ARW a fydd yn Ddiwrnod Cyfnewid ar 26ain Mawrth 2025. Cynhaliwyd yr un olaf o'r rhain cyn pandemig Covid felly rydym yn gyffrous i ail-lansio'r digwyddiadau hyn ac edrychwn ymlaen i'w gweld yn paru plant â theuluoedd. Os ydych chi'n fabwysiadwr cymeradwy ac â diddordeb mewn mynychu, siaradwch â'ch asiantaeth fabwysiadu ac fe wnân nhw eich cyfeirio atom ni.



# Baromedr Mabwysiadu 2024

## Eleni, cafwyd 4,000 o ymatebion ledled y DU, gyda 316 o'r rheiny o Gymru.

Cymru hefyd oedd yr unig ranbarth yn y DU i sgorio'n 'dda' ar bob elfen o'r asesiad o bolisïau cenedlaethol cyfredol yn y camau cynnar. Yn gyffredinol, mae mabwysiadwyr a rhai mabwysiedig yng Nghymru yn fwy positif nag mewn gwledydd eraill.

Er bod y canfyddiadau cyffredinol yn gadarnhaol, mae gwaith i'w wneud o hyd i gefnogi oedolion sy'n mabwysiadu, gyda dim ond 50% yn teimlo'n hyderus bod cymorth addas ar gael wrth geisio cael gafael ar gofnodion hanesyddol a dim ond 15% yn teimlo'n hyderus y gallant gael mynediad at wasanaethau therapiwtig addas.

## Cymerwch olwg ar yr ystadegau allweddol ar y dudalen nesaf →

# Ystadegau allweddol yng Nghymru

Mae **77%** o fabwysiadwyr newydd yn cytuno bod eu hyfforddiant wedi'u paratoi'n dda

Mae **37%** o deuluoedd yn wynebu heriau difrifol

Mae **63%** o fabwysiadwyr yn fodlon ag ansawdd y cymorth mabwysiadu ychwanegol

Dywedodd **85%** o deuluoedd a gafodd gymorth craidd ei fod wedi cael effaith gadarnhaol

# Ymadawyr a Dechreuwyr Newydd

Gadawodd Adele Gough SEWAS ym mis Medi 2024, i ymgymryd â rôl newydd yn NAS fel Rheolwr Datblygu Cymorth Mabwysiadu a gadawodd Sam Morgan, cynorthwyydd cymorth busnes ym mis Awst eleni.

Mae Claire Hereward yn ymddeol o'r Tîm Recriwtio ac Asesu yn WBAS. Fodd bynnag, rydym yn ffodus i gadw Claire fel aelod gwaith cymdeithasol ar y panel mabwysiadu ac fel asesydd annibynnol. Mae Karyn Badger o'r Tîm Recriwtio ac Asesu hefyd yn symud ymlaen ar ôl cael swydd gyda CAFCASS fel gwarcheidwad.

Mae Adoption UK wedi ffarwelio ag Ann Bell, wrth iddi ymddeol ar ôl 16 mlynedd gyda Adoption UK. Fel un mabwysiedig a rhiant mabwysiadol, roedd ei gwybodaeth a'i phrofiad yn amhrisiadwy i ddatblygiad gwasanaethau cymorth mabwysiadu yng Nghymru.

Hefyd, o fewn Adoption UK, mae Bek Burns yn ymuno fel Cyfarwyddwr newydd Cymru, gan ddod â blynyddoedd o brofiad o reoli elusennau a gweithio o fewn gwasanaethau adfer trawma gyda hi. Mae Connected yn croesawu Becky Soundy fel gweithiwr ieuenctid arweiniol ar gyfer Bae'r Gorllewin, Canolbarth a Gorllewin Cymru. Pamela Leigh fel gweithiwr ieuenctid arweiniol, a Tami Robertson fel gweithiwr cymorth ar gyfer Gogledd Cymru.

Mae NWAS yn falch o groesawu Nia Hardaker sydd wedi ymuno â'r Gwasanaeth yn ddiweddar fel Rheolwr Tîm ar gyfer y rhanbarth canol (Sir Ddinbych a Chonwy) a bydd ganddi hefyd gyfrifoldeb arweiniol dros y gwasanaeth Cyfryngol.

Croesawodd MWW Neil Webb (Gweithiwr Cymdeithasol Mabwysiadu), a ymunodd â'r tîm ym mis Hydref 2024. Dechreuodd Emma Buckley (Swyddog Marchnata a Recriwtio) yn ei swydd ym mis Medi 2024. Ymunodd Clara Lloyd (Gweithiwr Cymdeithasol Mabwysiadu Powys) â thîm Powys ym mis Medi 2024.



Mae WBAS yn falch o groesawu Ffion Griffiths i'r tîm recriwtio ac asesu.

O fewn tîm canolog NAS, gwnaethom ffarwelio â Chris Holmquist a ymddeolodd ym mis Mehefin yn dilyn gyrfa hir mewn gwaith cymdeithasol ac addysgu. Dymunwn yn dda i Chris gyda'i fentrau newydd. Roedd yn bleser gennym groesawu Adele Gough fel y Rheolwr Datblygu Cymorth Mabwysiadu newydd ym mis Hydref. Yn flaenorol, roedd Adele yn Weithiwr Cymdeithasol Cymorth Mabwysiadu gyda SEWAS felly mae'n dod â chyfoeth o brofiad gyda hi.

# I ddod yn 2025...



Wrth i ni nesá tuag at 2025, bydd y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn parhau i gefnogi mabwysiadwyr, pobl ifanc sydd wedi'u mabwysiadu a'r gymuned fabwysiadu ledled Cymru; yn parhau i hysbysu darpar fabwysiadwyr yn well am anghenion y plant sy'n aros a chodi ymholiadau ar gyfer y plant sy'n aros ar hyn o bryd i gael eu mabwysiadu.

**I ddarganfod mwy am yr hyn sydd i ddod yn 2025, dilynwch ni a'r gwasanaethau lleol ledled Cymru ar y cyfryngau cymdeithasol i gael y wybodaeth a'r newyddion diweddaraf.**

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

# Angen mwy o help?
# **Dim problem.**

**Cysylltwch**
Ffôn: 029 2087 3927
E-bost: contact@mabwysiaducymru.com
adoptcymru.com